Papur 13

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/JJ/0630/24

John Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

4 Mawrth 2024

Annwyl John,

Diolch ichi am adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar ei waith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024 – 25. Rydym yn gwerthfawrogi gwaith y Pwyllgor. Atodir ymateb Llywodraeth Cymru i Gwestiynau 12-16 sy'n ymwneud â Thai.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai - Cyllideb Ddrafft 2024-25**

**Tai**

**Argymhelliad 12**

Rhaid i Lywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i ddarparu cyllid ychwanegol ar gyfer dyraniad y Grant Cymorth Tai cyn y gyllideb derfynol, a dylai archwilio’r holl opsiynau posibl ar gyfer gwneud hynny.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi neilltuo £5m yn ychwanegol i'r Grant Cymorth ac Atal Digartrefedd yn y Gyllideb Derfynol, gan ddod â chyfanswm y gyllideb i bron £220m yn 2024/25.

O fewn y gyllideb hon, mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd wedi neilltuo £13m ychwanegol i'r Grant Cymorth Tai, gan ddod â'i gyfanswm i ychydig dros £182m yn 2024/25. Bwriad y cynnydd hwn yw helpu gwasanaethau cymorth tai i ddelio â phwysau chwyddiant, yn enwedig mewn perthynas â chyflogau ac i helpu'r sector i wireddu'n dyheadau o ran Gwaith Teg a'r Cyflog Byw Go Iawn.

**Argymhelliad 13**

Dylai’r Gweinidog Newid Hinsawdd, pan fo’r wybodaeth ar gael, roi diweddariad i’r Pwyllgor hwn ar y cynnydd a waned yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24 i gyflawni targed Llywodraeth Cymru o greu 20,000 o gartrefi cymdeithasol newydd i’w rhentu.

Ymateb: Derbyn

Disgwylir cyhoeddi'r datganiad ystadegol ar dai fforddiadwy ychwanegol yn 2023-24 ddiwedd yr hydref. Bydd y cyhoeddiad hwn yn cynnwys manylion yr holl dai fforddiadwy a ddarparwyd yn 2023-24 a nodi'r gwaith sydd wedi'i wneud at gyrraedd ein targed o 20,000 o gartrefi rhent yn y sector cymdeithasol.

**Argymhelliad 14**

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhestr gynhwysfawr o gyflwr presennol y cynlluniau adfer ar gyfer adeiladau preswyl uchel a chynnydd gwaith adfer gan ddatblygwyr. Dylid darparu manylion hefyd ynglŷn â sut mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i’r dyraniadau ar gyfer diogelwch adeiladau yn y gyllideb ddrafft gyflawni’r gwaith adfer yn 2024-25

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae manylion cynlluniau datblygwyr a hynt y gwaith eisoes ar gael, ac mae cynlluniau i rannu'r ffigurau hyn ar wefan Llywodraeth Cymru. Fel ag yn Lloegr, nid yw manylion adeiladau unigol yn cael eu rhannu'n gyhoeddus. Fodd bynnag, gofynnir i ddatblygwyr a Phersonau Cyfrifol rannu manylion gwaith arfaethedig gyda lesddeiliaid trwy delerau'r contract.

Mae dyraniad o £127 miliwn wedi'i wneud ar gyfer gwaith yn 2024/25, sy'n unol â'r gwariant disgwyliedig ac yn ddigon i gynnal arolygon a chynnal gwaith adfer mewn adeiladau amddifad, cymdeithasol ac adeiladau eraill sydd angen cymorth.

**Argymhelliad 15**

Dylai Llywodraeth Cymru wneud trefniadau i sicrhau bod data ar godiadau rhent cymdeithasol ledled Cymru ar gael i'r cyhoedd.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn casglu amrywiaeth o ddata ar stoc tai cymdeithasol a rhenti (Stoc tai cymdeithasol a rhenti (llyw.cymru)) gan gynnwys data ar y rhent wythnosol gyfartalog, sy'n caniatáu i ni gymharu blwyddyn â blwyddyn.

Yn yr Alban, mae landlordiaid cymdeithasol yn cael pennu eu codiadau rhent eu hunain, sy'n ei gwneud hi'n bwysig cyhoeddi data rhenti. Yng Nghymru, mae'n rhaid i landlordiaid cymdeithasol gadw at gap y rhent y flwyddyn honno.

Fel rhan o'n gwaith yn adolygu Safon Tâl Gwasanaeth a Rhent Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, byddwn yn gweithio gyda'r sector tai cymdeithasol ehangach i ddeall yn well sut y gallwn ddefnyddio'r data a gasglwn ar hyn o bryd yn fwy effeithiol. Mae hyn yn rhan bwysig o'n gwaith i wneud fforddiadwyedd yn rhan ganolog o'n polisi rhent cymdeithasol yn y dyfodol, ac mae'n golygu asesu'r data sydd ar gael a'r defnydd ohono, gan gynnwys data ar incwm, enillion a chostau ehangach aelwydydd.

**Argymhelliad 16**

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Gofal a Thrwsio Cymru i archwilio cyflwyno grant i gywiro problemau peryglus i alluogi pobl hŷn i fyw'n ddiogel ac yn annibynnol ac i atal derbyniadau i'r ysbyty oherwydd damweiniau gartref.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae'r Rhaglen Byw'n Annibynnol yn cefnogi ystod eang o weithgareddau trwy grantiau, nid i Gofal a Thrwsio Cymru ac Asiantaethau Gofal a Thrwsio yn unig ond hefyd i Gymdeithasau Tai drwy Grantiau Addasiadau Ffisegol (PAG) ac i Awdurdodau Lleol drwy'r rhaglen Galluogi.

Rydym wedi ymrwymo i barhau i gefnogi'r rhaglen hon. Mae hynny'n golygu parhau i gefnogi asiantaethau Gofal a Thrwsio, gan eu galluogi i wneud addasiadau bach yn gyflym er mwyn gallu rhyddhau cleifion ysbytai'n gyflym a rhag i bobl orfod mynd i ysbyty heb fod angen. Bydd hyn yn lleihau costau'r GIG ac yn lleihau'r pwysau ar ofal yn y cartref a gofal preswyl.